**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mehefin 2018

Annwyl Mick,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Mehefin ynglŷn â'r Cytundeb Rhynglywodraethol, a gwelliant Oliver Letwin i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) sy'n ymwneud ag egwyddorion amgylcheddol, y cytunodd Senedd y Deyrnas Unedig (DU) arno ddydd Llun 18 Mehefin.

Mae Llywodraeth y DU yn gwbl glir mai i Loegr yn unig, neu i faterion a gedwir yn ôl, y bydd y Bil drafft y bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ei lunio yn gymwys. At hynny, mae'n ofynnol yn ôl y gwelliant i'r Bil nodi cyfres o egwyddorion amgylcheddol trawsbynciol. Nid yw'r gwelliant yn gorfodi Llywodraeth y DU i lunio Bil sy'n nodi fframwaith deddfwriaethol mewn perthynas ag un o'r meysydd polisi penodol a restrir yn yr Atodiad i'r Cytundeb Rhynglywodraethol.

Felly, ar y sail hon, nid wyf o'r farn ei bod hi'n bosibl y gallai'r gwelliant dorri'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Fodd bynnag, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gadw mewn cysylltiad agos â chydweithwyr Llywodraeth y DU wrth iddynt ddatblygu'r Bil drafft, ac yn eu hatgoffa bod angen sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cytundeb.

Yn gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.